# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 4 Mai 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 12 Mai 2022 |
| *(Cyflwynir y Daflen hon fel penderfyniad brys yn unol â rhan 14.15.(c) o'r Cyfansoddiad y dylid ei heithrio o'r drefn galw er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn medru cyflwyno pleidleisiau cyn y dyddiad cau. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ei fod yn cytuno ei fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynigir yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau.)* | |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC – Prynu 9 Osmond Lane, Porthmadog**

**PENDERFYNIAD**

I brynu 9 Osmond Lane, Porthmadog, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago<br>Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 04.05.2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : 9 Osmond Lane, Porthmadog**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu 9 Osmond Lane, Porthmadog, a hyny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu Tai (CGT) ym mis Chwefror 2021. Mae'r CGT yn ymgorffori 33 o gynlluniau sy'n gweithio tuag at y nod o sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon sy'n fforddiadwy, ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

Byddai prynu'r eiddo yma yn cyfranu tuag at nod y Cynllun Gweithredu Tai o sicrhau cartrefi addas a fforddiadwy i bobl Gwynedd.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae 9 Osmond Lane yn eiddo teras sydd wedi ei gynnig ar y farchnad agored. Ystyrir yn eiddo yn addas ar gyfer cyfarch angen lleol.

Bydd y pryniant i gael ei ariannu ar ffurf benthyciad, gyda'r drefn o ariannu eisioes wedi ei gymeradwyo fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai.

Nid oes unrhyw fwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo'r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedid Mai 2015.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – Rwyf yn fodlon fod cynnwys y Daflen Benderfyniad yn gyson â'r Cynllun Gweithredu Tai, a nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

**Swyddog Monitro** – Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb. Fodd bynnag rwy'n derbyn fod angen symud ar fyrs i gwblhau y pryniant ac ei bod yn briodol hepgor y gyfundrefn galw mewn i graffu.

**Aelod/au Lleol:**

**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths**

Rwyf yn hollol hapus gyda'r pryniant a fydd yn rhoi cyfle i rhywun lleol gael cartref.